Senedd Cymru
**Cysylltiadau Rhyngwladol**

# Ymweliad gan yr Assemblée Nationale du Québec

11 Mehefin 2024

Croesawodd y Llywydd ddirprwyaeth o'r Assemblée Nationale du Québec, fel rhan o ymweliad swyddogol o dan arweiniad y Llefarydd Mme. Nathalie Roy MLA ar 11 Mehefin 2024.

Cafodd dirprwyaeth Québec eu croesawu gan y Llywydd, ynghyd â Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Manon Antoniazzi. Cynhaliwyd trafodaeth yn y Siambr ar flaenoriaethau presennol y Senedd cyn cyfnewid anrhegion. Yna, cafwyd diwrnod llawn o sesiynau a drefnwyd ar eu rhan gan dîm Cysylltiadau Rhyngwladol y Senedd.




Roedd y rhaglen o sesiynau gwaith yn cynnwys:

- Sesiwn gyda chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, yn trafod gwaith y Pwyllgor ar y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn y cyfryngau ac mewn diwylliant.

- Cyfarfod gyda Cawcws y Menywod i gymharu profiadau ac arferion gorau menywod mewn bywyd etholedig, cawcwsau menywod, a seneddau sy'n ystyriol o deuluoedd. Trafododd yr Aelodau hefyd fecanweithiau cwota rhywedd a'r ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n cael ei harwain drwy'r Senedd ar hyn o bryd.
- Sesiwn gyda swyddogion y Senedd ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, lle cyflwynodd swyddogion ffigurau ar y defnydd o'r Gymraeg yn nhrafodion y Senedd ac mewn deddfwriaeth.
- Trosolwg o Fusnes a gweithdrefnau'r Senedd, yn ogystal â datblygiadau a blaenoriaethau cyfredol.




Fel rhan o raglen y diwrnod, cynhaliwyd cinio swyddogol gan y Dirprwy Lywydd gyda chynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i drafod gwaith y Pwyllgorau ar fynediad at addysg a gofal plant, diwygiadau addysg, a'r dull iechyd cyhoeddus o ymdrin â thrais ar sail rhywedd.

Yn ystod y Cyfarfod Llawn, **cofnododd** y Llywydd gydnabyddiaeth swyddogol i'r Llefarydd Roy a'r ddirprwyaeth, cyn i aelodau gael cyfle i arsylwi Cwestiynau i'r Prif Weinidog.

